

Cais am Ryddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu

1. Manylion y cyfrif rydych chi'n hawlio rhyddhad ar ei gyfer

Rhif Cyfrif Trethi Busnes:

Enw llawn y talwr ardrethi:

2. Cyfeiriad yr eiddo rydych chi'n hawlio rhyddhad ar ei gyfer

3. Cyfeiriad y talwr ardrethi (os yn wahanol i'r uchod)

4. Nodwch sut mae'r eiddo yn cael ei ddefnyddio, e.e. cigydd, asiant teithio ac ati.

5. Ydych chi'n gallu cadarnhau bod yr eiddo yma yn cael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu yn bennaf ar gyfer gwerthu nwyddau, bwyd, diod neu wasanaethau i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r eiddo, a bod yr eiddo yn hygyrch i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r eiddo yn ystod oriau agor?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os dydy'ch eiddo chi ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer un o'r dibenion sydd wedi'u rhestru yn y Canllawiau ar gyfer Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu, ond rydych chi o'r farn eich bod chi, o bosibl, yn gymwys i gael rhyddhad, nodwch isod y manylion am y math o fusnes sy'n cael ei gynnal yn yr eiddo. Mae'n bosibl bydd angen i'r Cyngor arolygu'r eiddo i gadarnhau'r manylion hyn.

6. Datganiad Cymorth Gwladwriaethol De Minimis

Rhaid i ddyfarniad y rhyddhad yma gydymffurfio â chyfraith yr UE ar Gymorth Gwladwriaethol. O dan Reoliadau De Minimis (CE 1407/2013) ni ddylai'r talwr ardrethi, sy'n cael ei enwi drosodd, dderbyn cyfanswm o fwy na €200,000 o gymorth De Minimis, gan gynnwys unrhyw ryddhad ardrethi sy'n cael ei ddyfarnu ar gyfer yr eiddo yma, o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol neu'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol.

Rhowch fanylion unrhyw gymorth De Minimis rydych chi wedi'i dderbyn isod:

Swm y cymorth De Minimis	Cyfnod o amser cafodd y cymorth ei ddyfarnu ar ei gyfer	Sefydliad sy'n darparu'r cymorth	Natur y cymorth

7. Ydy'ch cwmni neu'ch busnes chi wedi derbyn mwy na €200,000 mewn cymorth gwladwriaethol, gan gynnwys Rhyddhad Manwerthu, yn ystod y tair blynedd diwethaf? Ticiwch y blwch perthnasol.

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os bydd eich amgylchiadau chi'n newid ac, felly, fyddwch chi ddim yn bodloni'r meini prawf cymhwysu mwyach, bydd rhaid i chi roi gwybod i ni fel gall Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr gael ei adolygu o ddyddiad y newid.

8. Ydych chi eisiau i ni ad-dalu unrhyw gredyd sy'n weddill ☐ neu ydych chi eisiau i ni drosglwyddo unrhyw gredyd sy'n weddill i'ch cyfrif ☐ ardrethi ar gyfer y flwyddyn nesaf?

9. Datganiad:

Drwy lofnodi'r ffurflen, rydych chi'n cytuno, hyd eithaf eich gwybodaeth, fod yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y ffurflen yn gyflawn ac nad yw'n anwir. Mae gwneud datganiad anwir yn fwriadol ar y ffurflen gais yn drosedd, a gall arwain at gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn.

Rydw i'n datgan:

- bod gen i awdurdod i lofnodi ar ran y talwr ardrethi sy'n cael ei enwi drosodd;
- bod y ffurflen wedi cael ei llenwi'n gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth;
- fydd y talwr ardrethi, sy'n cael ei enwi drosodd, ddim yn mynd y tu hwnt i'w drothwy De Minimis trwy dderbyn unrhyw Ryddhad Ardrethi'r Stryd Fawr.

Enw llawn

Llofnod Dyddiad

Swydd yn y sefydliad

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Ar ôl llenwi'r ffurflen, anfonwch hi i:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Swyddfeydd y Cyngor, Bronwydd, Y Porth CF39 9DL

Ffôn: 01443 425002 | E-bost: refeniw@rhondda-cynon-taf.gov.uk